Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
Ebost / Email: info@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA

Dyddiad: 3 Hydref 2014
Ein cyf: HVT/2213/mjb
Tudalen: 1 o 2

Annwyl Sarah

**YMGYNGHORIAD YNGHYLCH Y BIL ADDYSG A CHYNHWYSIANT ARIANNOL (CYMRU)**

Diolch i chi am y cyfle i gyflwyno sylwadau ar ymgynghoriad y Pwyllgor ynghylch y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru). Er nad fy rôl i yw gwneud sylwadau ar rinweddau amcanion polisi, ni all sicrhau bod gan bobl yng Nghymru y wybodaeth a'r gallu ariannol sydd eu hangen arnynt er mwyn rheoli eu hamgylchiadau ariannol yn effeithiol, a'u bod yn gwneud hynny o oedran cynnar, ond bod yn beth da.

Nid wyf wedi gwneud unrhyw waith archwilio penodol i edrych ar allu ariannol ymhlith plant oedran ysgol a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae gwaith archwilio sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd er mwyn ystyried effaith y diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru yn nodi rhai problemau sylweddol sy'n destun pryder o ran gallu pobl i reoli eu harian, effaith dyled gynyddol a'r gostyngiad ymddangosiadol yn nifer y gwasanaethau ariannol/gwasanaethau cyngor ar dai sydd ar gael. Er enghraifft, roedd mwy na hanner y tenantiaid tai cymdeithasol a arolygwyd fel rhan o'r gwaith hwn – sef 51 y cant – yn cytuno bod eu dyled bersonol wedi cynyddu yn ystod y 12 mis diwethaf. At hynny, nododd fy arolwg o gynghorau a chymdeithasau tai, yn ystod chwe mis cyntaf 2013-14, fod ôl-ddyledion rhent crynswth wedi cynyddu 19.7 y cant yn achos yr 11 o gynghorau sydd wedi cadw eu stoc dai a 25.8 y cant yn achos y 34 o gymdeithasau tai mawr.

Nodais hefyd fod llawer o denantiaid yn defnyddio benthyciadau llenwi bwlch neu ‘ddiwrnod cyflog’ er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd (benthyciadau bach, byrdymor yw'r rhain y bwriedir iddynt helpu pobl tan y tro nesaf y byddant yn cael eu talu neu'n cael budd-daliadau, pan ddylai’r benthyciad gael ei ad-dalu'n llawn). Er bod y benthyciadau hyn yn opsiwn cyfleus i deuluoedd sydd angen arian mewn argyfwng, gallent hefyd beri i bobl fynd i ragor o ddyled am fod y telerau ad-dalu a'r gyfradd ganrannol flynyddol yn aml yn uchel iawn.

Yr hyn sy'n peri'r pryder mwyaf yw fy mod wedi nodi nad oes gan lawer o bobl y wybodaeth na'r sgiliau i feddwl am eu cyllid a'i gynllunio yn y tymor hwy. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos cryn nifer o denantiaid tai cymdeithasol lle y gall canlyniadau tlodi, dyled a phroblemau sy'n gysylltiedig â thai fod yn sylweddol a hirsefydlog. Er mwyn lleihau dyled yn llwyddiannus, yn aml mae angen cymorth gwasanaethau cynghori a chwnsela proffesiynol.

Gallaf weld yr achos dros ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu strategaeth cynhwysiant ariannol sy'n nodi sut y byddant yn defnyddio eu pwerau. Fodd bynnag, rwy'n pryderu bod cyfyngiadau ar argaeledd gwasanaethau cyngor arbenigol a fydd yn tanseilio'r gwaith o'u darparu a bod y cyfyngiadau hynny yn debygol o barhau yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Fel y gŵyr y Pwyllgor yn iawn, mae cynghorau o dan bwysau cynyddol i leihau costau ond mae dyletswydd arnynt o hyd i ddarparu llawer o wasanaethau statudol yn ogystal â rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwelliant parhaus. Er mwyn mantoli cyllidebau, mae tystiolaeth bod cyllidebau gwasanaethau anstatudol, gan gynnwys swyddogaethau gwybodaeth a chyngor, yn cael eu lleihau fwy gan fod lefelau uwch o ddiogelwch yn cael eu rhoi i gyllidebau gofal cymdeithasol ac addysg. Felly, bydd angen ystyried sut i ddatblygu'r cyfrifoldebau newydd a fwriedir gan y Bil yn ofalus a sicrhau bod gan gynghorau ddigon o adnoddau er mwyn cyflawni'r canlyniadau arfaethedig.

Yn olaf, o ran plant sy'n derbyn gofal, efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried rhai o'r canfyddiadau o'm hadroddiad ar Gyrhaeddiad Addysgol Plant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal a gyhoeddwyd ym mis Medi 2012. Nododd yr adroddiad hwnnw wendidau mewn trefniadau rhianta corfforaethol a nododd nad oedd Llywodraeth Cymru nac awdurdodau lleol wedi asesu a oedd ganddynt ddigon o gapasiti ac adnoddau i gyflawni'r gwelliannau dymunol mewn cyrhaeddiad addysgol. Nodwyd gennym fod cynghorau wedi'i chael hi'n anodd cyflawni eu hymrwymiadau presennol (y gellid ystyried eu bod yn cynnwys darparu addysg ariannol) ac, oherwydd hynny, nid yw'n glir pa mor effeithiol y bydd unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn y maes hwn.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**